# BWRDD DIOGELU
# OEDOLION GOGLEDD
# CYMRU

## NEGESEUON ALLWEDDOL

**O'r cyfarfod a gynhaliwyd**

**Dydd Iau 19 Gorffennaf 2018**

- Cyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn i'r Bwrdd gefnogi lansio Protocol Unigolion ar Goll 'Herbert'. Wedi datblygu profforma unigolyn coll i helpu i ddod o hyd i unigolyn coll sy'n dioddef o Dementia ac ati. Bwrdd yn hapus i gytuno i gefnogi a bydd cynhadledd/gweithdy yn cael ei drefnu ar gyfer Medi 2018 i helpu i godi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth.
  .
- Darparwyd Adroddiadau Asiantaethau Partner i'w trafod a oedd yn amlinellu cyraeddiadau a heriau'r asiantaethau hynny. Rhannu arfer da hefyd ac adnabod meysydd o waith yn y dyfodol i'r Bwrdd eu hystyried.

- Diweddariad wedi'i dderbyn ar Anrhydeddau Gofal Cymdeithasol a'r gwaith sydd wedi'i wneud yng Ngogledd Cymru ar ddatblygu a gweithredu'r protocol Hunan-Esgeuluso.

- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cael ei gyhoeddi ac ar gael ar y wefan o 31 Gorffennaf. Bydd fersiwn 'hawdd i'w ddarllen' yn cael ei lunio a'i rannu.

- Trafodaeth wedi bod ynghylch cyhoeddi Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu ar ofal cleifion ar ward Tawel Fan cyn ei gau, a threfniadau llywodraethu ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o Ragfyr 2013 i'r cyfnod presennol.